CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 20, 2018

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 20, 2018 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Meurig Ashton, Hugh A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Gerallt Griffith.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 20, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 20, 2018

Eitem 10. Llythyr (21/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd y gwaith o drwsio'r wal yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol newydd o fis Ebrill.

Llythyr (23/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae amheuedd os bydd ffordd R14 yn cael ei agor oherwydd mae'n ffordd breifat.

Llythyr (16/3/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd, ynglŷn â Rhybudd Cau Ffordd Lôn Lefel, Ganllwyd mewn Argyfwng. O Mawrth 16 ni chaiff unrhyw gerbyd fynd ar ffordd Lôn Lefel, a bydd ffordd osgoi ar gael. Mae hyn oherwydd bod y wal gynnal y ffordd wedi ei thanseilio gan yr afon. Disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn 21 diwrnod.

Eitem 6.g. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgau mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy
Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Eitem 5. Eitem 8.f. Anfonwyd llythyr (23/2/2018) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i gadarnhau ein bod yn penodi nhw fel ein Harchwilydd Mewnol. Derbyniwyd y llythyr (27/2/2018) yn ôl wedi ei arwyddo gan Swyddog o'r Uned. Mae'n debyg bydd y ffi oddeutu £100.

Llythyr (15/3/2018) oddi wrth ein Harchwilydd Mewnol gyda rhestr o ddogfennau bydd eu hangen at yr archwiliad.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Llythyr (26/2/2018) oddi wrth Gwŷl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn diolch am ein rhodd..

ch. Llythyr (26/2/2018) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

d. Galwad ffôn oddi (28/2/2018) wrth Mrs E. Roberts, Ceunant, Rhydymain. Roedd yn gofyn am gritter halen fynd ar hyd ffordd Drwsynant – Bryncoedifor yn enwedig at Ceunant, Rhydymain. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd.

Llythyr ateb (28/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod nid yw'n bosib cyrraedd pobman ond gobeithio cyrraedd yn ystod y dyddiau nesaf.

dd. Llythyr ateb (6/3/2018) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod maent wedi gwneud gwaith i wella'r sefyllfa y dŵr yn sefyll ar y ffordd A494 ger mynedfa Dolserau Hotel ers wal newydd gael ei adeiladu. (Eitem 10.b. Cofnodion Ionawr 2018).

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Asiant bod dŵr yn dal yn sefyll ar y ffordd wedi glaw ac yn gadael pwll sylweddol ar y ffordd.

e. Llythyr (10/3/2018) oddi wrth Yr Elusen Amaethyddol Frenhinol (RABI Meirionnydd). Maent angen cymorth ariannol. Mae ganddynt Gyngerdd Mawreddog ar nos Sadwrn, Mehefin 16, 2018 yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau.

Penderfynwyd trafod y mater ym mis Chwefror 2019 Cais am Nawdd.

f. Llythyr (8/3/2018) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £200.

ff. Llythyr (19/3/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod os mae cynigion i'w rhoi ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 maent eu hangen cyn Mai 31, 2018.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (27/2/2018) yn rhoi gwybod cynhelir gweithdy i helpu'r cyngor deall sut y delir â cheisiadau cynllunio a sut allwn ni dylanwadu ar y penderfyniadau. Bydd y digwyddiad yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar ddydd Iau, Mawrth 8, 2018 am 2.00yp.

b. Galwad ffôn (14/3/2018) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod bydd Swyddog yn plannu coed fala ar 15/3/2018. Mi fydd yn Ysgol Bro Idris, Rhydymain am 1.00yp ac yn Ysgol Meithrinfa Seren Fach, Brithdir am 3.00yp. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau sy'n derbyn e-bost.

Derbyniwyd (16/3/2018) dau lun oddi wrth y Parc yn dangos y digwyddiad.

c. Llythyr (15/3/2018) gyda dogfen Cynllun Datblygu Lleol adolygiad Eryri 2016 / 2031 – Newidiadau Ffocws. Bydd ymgynghoriad yn cymryd lle rhwng 16/3/2018 a 27/4/2018.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/2/2018) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod bydd ein cyfrifon yn newid o 'HSBC Bank plc' i 'HSBC UK bank plc' ar 1/07/2018).

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28 Chwefror 2018: £1,136.83.

c. Balans yn y banc ar 28 Chwefror 2018: £6,015.24.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Derbyniwyd llythyr (27/2/2018) oddi wrth Pennaeth, Hengwrt yn gofyn os mae'n bosib i Priffyrdd gritio'r ffordd o'r A494 at Hengwrt, a hefyd llenwi'r binniau halen. Anfonwyd y neges ymlaen i Priffyrdd.

b. Anfonwyd llythyr (27/2/2018) i Priffyrdd yn rhoi gwybod mae angen llenwi bin halen sydd wrth y stesion, Esgairgawr.
Rhoddwyd syniad iddynt i roi sticer ar y biniau gyda rhif ffôn cyswllt, a rhoi gwybod nid yw'r drefn bresenol gyda'r biniau yn gweithio.
Rhoddwyd gwybod iddynt nid yw'r drefn i gael y Clerc i roi gwybod am yr angen i lenwi biniau yn gweithio.

Derbyniwyd llythyr ateb (1/3/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae cais i lenwi biniau yn gorfod cael ei wneud gan y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cais a'r gost.

Penderfynwyd iddo gael mwy o drafodaeth gyda Mr Adrian Williams, Priffyrdd, ynglŷn â symud (os bydd rhaid) a llenwi binniau halen.

Llofnod: Dyddiad: